GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Eich helpu chi i ffynnu**
**ym mhob cam o fywyd**





# HRT y Wain - Taflen Wybodaeth

Gellir defnyddio estrogenau y wain fel triniaeth annibynnol neu gyda HRT systemig, i reoli symptomau syndrom cenhedlol-wrinol y menopos (GSM). Bydd angen estrogen y wain ar 25% o fenywod sy'n defnyddio HRT systemig hefyd. Gall GSM gynnwys sychder, dolur, llid a gall rhai menywod brofi symptomau sy'n effeithio ar y bledren neu ar gyfathrach rywiol.

Mae'r risg sy'n gysylltedig ag estrogen y wain yn gyffredinol isel, gan mai ychydig iawn sy'n cael ei amsugno i'r llif gwaed, sy'n golygu mai dim ond effaith fach iawn y mae'n ei gael ar y corff cyfan.

Mae estrogen y wain ar gael mewn sawl fformwleiddiad gwahanol. Gellir ei gyflwyno mewn pessari (tabled fach sy'n cael ei mewnosod i'r wain), gel, hufen neu gylch PVC bach wedi'i fewnosod i'r wain. Mae'r rhan fwyaf o gyfundrefnau'n cynghori defnyddio'r geliau, yr hufenau a'r pessarïau bob dydd am 2-4 wythnos fel 'dos llwytho' ac yna eu defnyddio ddwywaith yr wythnos i gadw symptomau o dan reolaeth. Mae'r e-string (cylch PVC sy'n cael ei fewnosod) yn aros yn ei le am 90 diwrnod ac yna'n cael ei newid am un newydd. Gall y claf wneud y newid gartref.

Mae gwahanol fathau o estrogen a dosau o fewn y gwahanol fformwleiddiadau, a dewis y claf, i raddau helaeth, yw pa un sy'n cael ei ddefnyddio. .